

Bwletin Awdurdod S4C - Mawrth 2004

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod nos lau a ddydd Gwener, 25 a 26 Mawrth 2004.

Canlso Cyfarfodydd mis Chwefror

Cyfeiriwyd at y ffaith y bu rhaid gohirio'r cyfarfod cyhoeddus a chanslo cyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror yn Llanberis oherwydd yr eira. Cadarnhawyd bod cyfarfodydd yn Llanberis bellach wedi'u hail-drefnu ar gyfer mis Ebrill (gan gynnwys y cyfarfod oedd i'w gynnal gyda Chyngor TAC).

Cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Rhaglenni

Derbyniodd yr Awdurdod gyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Rhaglenni oedd yn dechrau amlinellu ei chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth rhaglenni. Esboniodd ei gweledigaeth o greu gwasanaeth rhaglenni o safon eithriadol ac agenda uchelgeisiol ar gyfer sianel gyflawn Gymraeg ar S4C Digidol. Y nod oedd rhagoriaeth greadigol. Eglurodd y Cyfarwyddwr sut y byddai'r Adran yn mynd ati i geisio cyflawni hyn. Soniodd am y meddylfryd gweithredol o anelu at berffeithrwydd ar bob cymal o'r broses o greu rhaglen; yn sicrhau adborth; ac yn gweithio mewn partneriaeth gydag adrannau mewnol a chynhyrchwyr. Aeth ymlaen i amlinellu'r modd y byddai'r Adran yn gweithredu i gyflawni'r nod o 'sicrhau fod yna uchafbwyntiau niferus sy'n cynnig profiadau diwylliannol cofiadwy ac arbennig'.

Roedd y cyflwyniad wedi tanlinellu rhai o brif oblygiadau'r newidiadau yr oedd y Cyfarwyddwr yn bwriadu gweithredu arnynt. Arweiniodd sylwadau'r Aelodau at drafodaeth ynglyn â nifer o'r agweddau ymarferol y byddai'r Adran yn eu hwynebu er mwyn gwireddu'r newidiadau hyn. Byddai'r Cyfarwyddwr mewn sefyllfa i gyflwyno mwy o wybodaeth manwl ar ei chynlluniau ymhen ychydig wythnosau.

Côd Ymarfer ar Gomisiynu Rhaglenni

Adroddwyd bod S4C yn agos iawn at ddod i gytundeb gyda TAC ar y Côd. Roedd trafodaethau adeiladol iawn weid'u cynnal dros yr wythnosau diwethaf ar union natur y pecyn hawliau byddai S4C yn disgwyl sicrhau wrth gomisiynu. Roedd materion pwysig iawn yn codi yn achos raglenni plant oherwydd eu gwerth addysgiadol gan fod yna werth i'r rhain am gyfnod tu hwnt i'r hyn oedd yn arferol ar gyfer rhaglenni eraill a nodwyd bod TAC wedi bod yn adeiladol iawn ar y mater yma. Gobeithiwyd yn fawr y byddai Cyngor TAC yn cytuno i'r Côd yn ystod yr wythnos nesaf fel y gallai S4C yna ei gyflwyno i Ofcom. Nododd yr Awdurdod y sefyllfa a mynegwyd ei bod hi'n dda i weld pethau'n dod i gytgord.

Llythyr oddi wrth Eluned Morgan, ASE

Soniwyd bod y Cadeirydd wedi gyrru ateb at Eluned Morgan parthed y rhaglen yn dathlu penblwydd Dafydd Iwan yn 60 oed. Roedd y llythyr a ddanfonwyd yn cefnogi darllediad y rhaglen yn sgil cyfraniad Dafydd Iwan i'r byd adloniant yng Nghymru dros ryw 40 mlynedd. Roedd y llythyr hefyd yn cydnabod bod ethol Dafydd Iwan fel Llywydd Plaid Cymru yn golygu y byddai ei ymddangosiadau yn y dyfodol yn gorfod cael eu hystyried fesul rhaglen.

Pwyllgor Cwynion [*Gadawodd yr Aelod, Enid Rowlands, yr ystafell ar gyfer yr eitem hon gan iddi fod yn Gadeirydd ar ELWa ar yr adeg pan ddarledwyd y rhaglen dan sylw.*]

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Cwynion a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2004 pan ystyriwyd cwyn gan ELWa ynglyn â'r rhaglen *Y Byd ar Bedwar* a ddarledwyd ar 2 Gorffennaf 2003. Bu'r bennod hon, a gynhyrchwyd gan HTV ar gyfer S4C ac a ddarledwyd ar 2 Gorffennaf 2003, yn ymwneud â gwahanol agweddau o'r ddarpariaeth o wersi Cymraeg i oedolion a rôl ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol mewn perthynas â'r rhain. Yn dilyn hyn, fe wnaeth ELWa gwyno ynglyn â'r rhaglen ar sail annehegwch.

Wedi ystyried o bob agwedd o'r mater hwn daeth yr Awdurdod i'r casgliad fod hwn yn bwnc dilys i'r rhaglen ei ymchwilio. Roedd hefyd o'r farn fod ELWa wedi derbyn lefel briodol o wybodaeth ynglyn â'r rhaglen o flaenllaw a bod natur yr holi wedi bod yn deg. Fe wnaeth yr Awdurdod, er hynny, deimlo bod y modd y defnyddiwyd y deunydd a ffilmiwyd wedi bod yn annheg gan y gallai fod wedi rhoi argraff gamarweiniol i'r gwylwyr fod cynrychiolydd ELWa ddim yn gallu ateb cwestiynau'r holwraig. Roedd cynhyrchwyr y rhaglen hefyd wedi tramgwyddo preifatrwydd aelod arall o'r staff wrth ddefnyddio lluniau ohoni pan nad oedd wedi cytuno i ymddangos yn y rhaglen. Dyfarnodd yr Awdurdod, felly, fod y cwyn a wnaethpwyd gan ELWa yn ddilys yn rhannol. Penderfynnwyd y dylid darlledu ymddiheuriad cyn y pennod nesaf o'r rhaglen *Y Byd ar Bedwar*.

Ymgynghoriadau Darlledu

Nododd y Cadeirydd fod yna dri ymgynghoriad yn mynd yn eu blaenau ar hyn o bryd, sef: un yn ymwneud ag adolygiad allanol S4C; un ar adolygiad gwasanaeth darlledu cyhoeddus gan Ofcom, a'r llall adolygiad Siarter y BBC. Nodwyd bod yr Arglwydd McIntosh, (y Gweinidog dros Ddarlledu, Ffilm a Thwristiaeth, yn y DCMS) wedi dechrau trafodaethau ar Siarter y BBC a'i fod wedi ymweld â Chaerdydd yr wythnos flaenorol. Mynychodd yr Arglwydd McIntosh gyfarfod a drefnwyd gan yr RTS a chyfarfod cyhoeddus hefyd. Tra roedd yng Nghaerdydd manteisiodd yr Arglwydd McIntosh ar y cyfle i ddod am gyfarfod yn S4C.

Adolygiad S4C

- (a) Nodwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal gydag Alun Pugh, Gweinidog dros Ddiwylliant y Cynulliad. Pwrpas y cyfarfod oedd i gyflwyno iddo prif gasgliadau'r adolygiad mewnol ac i amlinellu'r camau nesaf.
- (b) Cyfeiriwyd hefyd at erthygl gan y Cadeirydd yn ymwneud â'r adolygiad oedd wedi ymddangos yn y Financial Times. Y gobaith oedd y byddai erthygl o'r fath yn tynnu sylw ystod ehangach o bobl at yr adolygiad.

Yr Arglwydd Richard Attenborough

Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cael cyfarfod gyda'r Arglwydd Attenborough yng Nghaerdydd yn ystod yr wythnos gynt. Y prif fater a drafodwyd oedd cynlluniau y grwp yr oedd yr Arglwydd Attenborough yn gysylltiedig â nhw ynglyn â'r fenter Dragon Studios ym Mhen-y-Bont.

Cynhadledd ar Gyfathrebu ym Mhrifysgol Aberystwyth

Cyfeiriwyd at y gynhadledd wedi ei threfnu gan Brifysgol Cymru Aberystwyth i'w chynnal ar 29/30 Mawrth. Nodwyd y byddai Roger Laughton a Meurig Royles yn mynychu a'i fod yn fwriad ganddynt i roi cyfle i bobl gyflwyno sylwadau a thystiolaeth iddynt ar faterion yn ymwneud â adolygiad S4C.

Perfformiad y Gwasanaeth

Roedd y Tîm Rheoli wedi bod yn adolygu ei ddulliau o drafod perfformiad y gwasanaeth darlledu ac o adrodd ar y perfformiad hwnnw i'r Awdurdod. Cytunodd yr Awdurdod i drefn newydd o adrodd ar berfformiad fyddai'n sicrhau fod cyfuniad o ganlyniadau meintiol ac ansoddol yn cael eu cyflwyno ar y cyd i'r Awdurdod er mwyn galluogi trafodaeth ystyrlon.

Cyhoeddi Ffigurau Gwylio tu allan i Gymru

Esboniodd y Prif Weithredwr fod sistem BARB nawr yn gallu cynhyrchu tystiolaeth am wylio S4C y tu allan i Gymru. Roedd y ffigurau yn cael eu cynhyrchu gan BARB yn ôl yr un drefn ag oedd yn cynhyrchu ffigurau gwylio y Sianel ar gyfer Cymru yn unig (heblaw am y ffaith nad oedd yna banel 'boost'). Wedi trafod yn ofalus, cytunodd yr Awdurdod y dylai S4C o hyn allan cyhoeddi – at bwrrpas yr Ugain Uchaf Wythnosol ac at bwrrpas y 30 Uchaf a gyhoeddir yn yr Adroddiad Blynyddol – ffigurau ar gyfer rhaglenni unigol oedd yn cynnwys gwylio y tu allan i Gymru

Adolygiad S4C

Adroddwyd ar y sefyllfa ddiweddaraf. Roedd Meurig Royles wedi trefnu cwrdd â gwahanol gyrff a phobl o gwmpas Cymru i sicrhau bod pobl yn cael cyfle i fynegi barn ac i fwydo sylwadau i mewn i'r adolygiad. Byddai Roger Laughton hefyd yn cwrdd ag ystod o gyrff. Esboniwyd natur y gwahanol gyflwyniadau a chyfarfodydd yr oedd yr adolygwyr wedi'u cael gyda staff hyn S4C yn ystod eu hymweliadau â S4C hyd yn hyn. Roedd cyfarfod hefyd wedi'i gynnal gyda'r Cadeirydd a chadeiryddion y pwyllgorau Archwilio a Rheoli Risg, a Phersonél a Chydnabyddiaeth. Yr oedd detholiad o gofnodion yr Awdurdod dros y cwpl o flynyddoedd diwethaf hefyd wedi'i ddarparu i'r adolygwyr. Soniwyd ei bod hi'n dal yn fwriad gan Roger Laughton i adrodd i'r DCMS ym mis Mai.

Adolygiad Siarter y BBC

Trafododd yr Aelodau ddrafft cychwynnol o ymateb S4C i ymgynghoriad y DCMS ar Siarter y BBC. Tra roedd yr Aelodau'n cytuno â nifer o'r pwyntiau oedd wedi'u gwneud yn yr adroddiad, gwnaethpwyd nifer o sylwadau ychwanegol. Cytunwyd y dylid gyrru ymateb i ymgynghoriad y DCMS ar yr amod bod y ddogfen a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn cael ei addasu i adlewyrchu'r syladau hyn.

Deddf Ryddid Gwybodaeth 2000: Cynllun Cyhoeddi S4C

Ystyriwyd adroddiad oedd yn gosod allan gynllun cyhoeddi awgrymedig yn unol â dyletswydd y Sianel o dan ofynion y Ddeddf Ryddid Gwybodaeth. Nodwyd, gan bod S4C yn gorff cyhoeddus, y byddai hawl gan aelodau'r cyhoedd o dan y Ddeddf i ofyn am wybodaeth ym meddiant S4C o 2005 ymlaen. Fel cam cyntaf, roedd cyrff cyhoeddus o dan ddyletswydd i baratoi cynlluniau cyhoeddi oedd yn rhestru'r gwybodaeth yr oeddynt yn cynnig dylai fod ar gael i'r cyhoedd. Cymeradwyodd yr Awdurdod y cynllun cyhoeddi fel y'i cyflwynwyd.

Cynllun Cydraddoldeb Hiliol S4C

Ystyriwyd adroddiad oedd yn cyflwyno cynllun cydraddoldeb hiliol awgrymedig. Roedd hwn yn esiampl arall o gynllun roedd angen ei gyhoeddi fel rhan o ddyletswydd S4C fel corff cyhoeddus. Wrth drafod y cynllun gwnaethpwyd y pwynt y byddai'n bwysig bod S4C yn cymryd y monitro o ddifrif a'i fod yn llunio rhan o raglen waith yr Awdurdod (o bosibl, i'w ddirprwyo i'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth). Nodwyd bod S4C eisoes yn edrych ar hysbysebu swyddi mewn papurau/cylchgronau priodol i geisio denu ceisiadau gan mwy o bobl o gefndiroedd ethnig, a hefyd bod yna gynlluniau i ehangu'r cyfleoedd i bobl ifanc o'r lleiafrifoedd ethnig gael blas ar y diwydiant yng Nghymru. Cymeradwyodd yr Awdurdod Cynllun Cydraddoldeb Hiliol fel y'i cyflwynwyd.

Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Cofnodion Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2004.
- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 13 Chwefror 2003.
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil